Llywodraeth Cymru
Welsh Government

salix

# Rhaglen Cyllido Cymru

## Nodiadau Canllaw

Gorffenaf 2025



# Rhaglen Gyllido Cymru
## Nodiadau Canllaw

## Cynnwys


1 Rhaglen Gyllido Cymru ....... 3

1.1 Cyflwyniad ....... 3

2 Cymhwysedd ceisiadau ....... 3

2.1 Pwy sy'n cael gwneud cais? ....... 3

2.2 Pa dechnolegau sy'n gymwys? ....... 4

2.3 Adeiladau cymwys ....... 4

2.4 Costau cymwys ....... 5

2.5 Meini prawf cydymffurfio ....... 5

3 Meini prawf ychwanegol ....... 5

4 Cyfrifoldebau a chymhwysedd ....... 6

5 Y broses ymgeisio ....... 6

5.1 Cyflwyno eich cais ....... 6

Gwybodaeth ategol sy'n ofynnol gan ymgeiswyr ....... 7

5.2 Awdurdodi a llywodraethu ....... 8

5.3 Proses asesu ....... 9

6 Ymgeiswyr llwyddiannus ....... 9

6.1 Gofynion adrodd ....... 9

6.2 Newidiadau i'r prosiect ....... 10

7 Tynnu'r benthyciad i lawr a'i ad-dalu ....... 10

7.1 Cyfradd llog benthyciad a manylion ....... 10

7.2 Tynnu'r benthyciad i lawr ....... 10

7.3 Ad-dalu'r benthyciad ....... 10

8 Cymorth a chyngor ....... 11

Atodiad A ....... 12

# 1 Rhaglen Gyllido Cymru

## 1.1 Cyflwyniad

Mae Rhaglen Gyllido Cymru yn darparu cyllid benthyciad ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio ar gyfer cyrff sector cyhoeddus sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer y cynllun i helpu'r sector cyhoeddus i gyflawni ei uchelgais i fod yn sero net erbyn 2030, a'r targed cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth y DU i gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net ledled y DU erbyn 2050.

Bydd cyfradd llog sefydlog yn seiliedig ar gyfradd fenthyca bresennol y llywodraeth o 2.05% yn cael ei gosod ar y benthyciad. Ni fydd y gyfradd llog yn newid ac fe'i pennir ar gyfer tymor cyfan y benthyciad ar ôl cwblhau'r cytundeb benthyciad. Bydd y benthyciad yn cael ei dalu i'r derbynnydd ymlaen llaw, neu'n seiliedig ar anghenion llif arian sefydliad y derbynnydd.

Bydd gan ymgeiswyr ar gyfer Rhaglen Gyllido Cymru ffenestr dwy flynedd i gyflawni eu prosiectau, gan ddechrau o ddyddiad dechrau'r prosiect a nodir yn y cytundeb benthyciad.

# 2 Cymhwysedd ceisiadau

**Maint a chwmpas y cais**
Y gwerth lleiaf yw £5,000. Nid oes uchafswm maint y cais.

Gellir cynnwys mesurau ac adeiladau lluosog mewn un cais ar yr amod bod y cais yn bodloni'r gofynion cydymffurfio.

**Amserlen ar gyfer cwblhau**
Dylai prosiectau gael eu cwblhau o fewn dwy flynedd galendr o ddyddiad dechrau'r prosiect a nodir yn y cytundeb benthyciad.

## 2.1 Pwy sy'n cael gwneud cais?

Mae Rhaglen Gyllido Cymru ar gael i gyrff y sector cyhoeddus sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru fel y'i diffinnir yn Neddf Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Cyfeirir at y sawl sy'n gwneud cais yn y ddogfen hon fel 'yr ymgeisydd'.

Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i awdurdodau lleol, prifysgolion, colegau, ysgolion, gweinyddiaethau datganoledig y llywodraeth. I gael cwestiynau ynghylch cymhwysedd sefydliad, cysylltwch â'r tîm.

Ar gyfer byrddau iechyd neu sefydliadau heb bwerau benthyca, bydd ceisiadau'n cael eu hariannu drwy'r cynllun Buddsoddi i Arbed (I2S), y mae Salix Finance yn ei ddarparu, ond mae'r arian yn cael ei weinyddu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y sefydliadau hyn yn dilyn yr un broses ymgeisio ac asesu technegol.

### 2.2 Pa dechnolegau sy'n gymwys?

Prif ffocws y benthyciad yw cefnogi mesurau effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio o fewn y sector cyhoeddus. Isod mae rhestr o dechnolegau cymwys ond nid yw'n gynhwysfawr.:

- Gwresogi carbon isel – fel pympiau gwres, cysylltiadau â system wresogi ardal sy'n bodoli eisoes, gwresogi trydan, thermol solar.
- Systemau rheoli ynni adeiladau (BEMS).
- Oeri - fel system reoli, amnewid offer, oerwyr, oeri rhydd, oeri anweddol.
- Ynni o wastraff – fel treulio anaerobig, llosgi.
- Gwresogi – fel adfer gwres, rheolyddion, gwelliannau i bibellau, falfiau rheoli, amnewidiadau trapiau stêm.
- Dŵr poeth – fel cyfyngu llif, gwelliannau dosbarthu, tapiau effeithlon.
- Inswleiddio - fel inswleiddio waliau ceudod, gwydr dwbl, insiwleiddio atig, llawr a tho.
- Goleuadau LED – fel gosodiadau newydd, rheolyddion, systemau rheoli canolog.
- Rheolyddion motorau ac amnewid – megis cyflymder sefydlog, gyriannau gwregys gwastad, gyriannau cyflymder amrywiol.
- Ynni adnewyddadwy – fel system ynni dŵr bach, solar ffotofoltaig, tyrbinau gwynt.
- Awyru – megis unedau trin aer, lleithyddion uwchsain, dosbarthwyr awyru a rheolyddion presenoldeb.

Gweler ffurflen gais Rhaglen Gyllido Cymru am restr lawn o dechnolegau cymwys.

### 2.3 Adeiladau cymwys

Dim ond adeiladau annomestig presennol sy'n eiddo i gyrff cymwys yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a gaiff eu cynnwys yn y cais. Gellir cynnwys adeiladau ar lesoedd hirdymor gydag o leiaf 10 mlynedd yn weddill. Mae ymgeiswyr sydd â threfniant les hirdymor ar gyfer adeilad corff sector cyhoeddus arall (e.e. llywodraeth leol) lle mae'r contract les yn caniatáu i'r arbedion cost drwy well effeithlonrwydd ynni gael eu trosglwyddo i'r corff cyhoeddus yn gymwys i wneud cais.

Mae adeiladau o dan gontractau PPI/PFI dim ond yn gymwys os caiff yr arbedion effeithlonrwydd ynni eu trosglwyddo i'r corff sector cyhoeddus cymwys sy'n gwneud cais am y benthyciad. Mae'n rhaid i ymgeiswyr allu dangos tystiolaeth bod hyn wedi cael ei negodi'n glir gyda'r partneriaid i'r cytundeb a'i fod wedi ei gytuno gyda Salix cyn cyflwyno'r cais.

Mae Salix yn cydnabod bod llawer o adeiladau sy'n eiddo i gyrff y sector cyhoeddus yn cynnwys adeiladau rhestredig. Rhaid i geisiadau sicrhau bod gofynion adeilad rhestredig yn cael eu bodloni ac yn ystyried effeithiau niweidiol posibl ar olwg allanol a pherfformiad yr adeileddau gwreiddiol, er enghraifft trwy achosi anwedd a lleithder.

## 2.4 Costau cymwys

Gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid i dalu costau o ddylunio manwl hyd at weithgareddau cwblhau fel comisiynu cyhyd â bod y prosiect yn parhau i gydymffurfio â gofynion. Mae'r costau cymwys yn cynnwys:

- Nodi a datblygu dyluniad prosiect
- Caffael.
- Prynu offer a deunyddiau.
- Saernïaeth, gosod, adeiladu a chomisiynu.
- Rheoli prosiectau.
- Gwaith galluogi ac ategol.
- Ffioedd Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO).
-

Ni fydd costau cyfalaf a ysgwyddir cyn dyddiad y cytundeb rhwng Salix a'r ymgeisydd yn gymwys i gael eu cyllido. Cysylltwch â ni ynghylch unrhyw ymholiadau ar gymhwysedd costau.

## 2.5 Meini prawf cydymffurfio

Bydd metrig cost carbon yn cael ei ddefnyddio i adolygu buddion a gwerth am arian y prosiect dros ei oes. Cyfrifir hyn yn awtomatig gan offeryn cymorth Salix yn y ffurflen gais. Y trothwy ar gyfer ystyried prosiect sy'n gymwys yw cost carbon o £350 tCO2e neu is.

Rhaid i brosiectau fod â chyfnod ad-dalu technegol o 10 mlynedd neu lai. Dyma'r cyfnod y byddai'n ei gymryd i arbedion ariannol y prosiect ad-dalu gwerth cyfalaf y benthyciad (a elwir hefyd yn 'brifswm').

Mae'r metrig cost carbon a'r ad-daliad technegol yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r manylion technegol a ddarperir ar y ffurflen gais, ac yn seiliedig ar werth y benthyciad y gofynnwyd amdano. Argymhellir bod yr ymgeisydd yn rhoi manylion y prosiect cyfan ar y ffurflen gais i nodi'r gost garbon gyffredinol a'r ad-daliad technegol. Pan nad yw prosiectau'n bodloni'r meini prawf cydymffurfio technegol, mae gan ymgeiswyr yr opsiwn i leihau gwerth y benthyciad y gofynnir amdano i fodloni'r gofynion cydymffurfio.

# 3 Meini prawf ychwanegol

Mae'n ofynnol i brosiectau fodloni'r meini prawf o fod yn ystyr 'ychwanegol':

- Nid yw'n ofynnol i'r mesurau dan sylw gael eu gosod yn ôl y gyfraith (gan gynnwys deddfwriaeth adeiladu neu iechyd a diogelwch).
- Ar gyfer mesurau sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, gellir ceisio cyllid benthyciad ar gyfer y costau uwch.
- Nid yw'r mesurau'n cael eu gosod gyda'r bwriad o ennill elw masnachol (ac eithrio lleihau costau trwy gynyddu effeithlonrwydd ynni).

- Nid yw’r gwaith gosod y mesurau dan sylw wedi dechrau.
- Ym marn resymol Salix, ni fyddai'r prosiect yn digwydd heb y benthyciad.

## 4 Cyfrifoldebau a chymhwysedd

Mae Salix yn tybio bod yr ymgeisydd a'i bartner(iaid) yn gymwys ac yn gwbl gyfrifol am ariannu'r prosiectau. Rhaid i'r ymgeisydd sector cyhoeddus sicrhau bod atebolrwydd ar gyfer y cais, y gwaith o gyflwyno'r prosiect a'r llywodraethiant yn gyfrifoldeb y swyddog awdurdodi a'r prif gyswllt ac nad yw hyn yn cael ei drosglwyddo i gontractwyr. Cyfrifoldeb ymgeisydd y sector cyhoeddus yw sicrhau ei fod ef, a'i bartneriaid, yn cyflawni yn unol â'r cytundeb benthyciad, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i’r canlynol:

- Bod cwblhau'r ffurflen gais yn glynu wrth y gofynion a nodir yn y tab canllawiau ac nid yw'r data yn cael ei gludo mewn celloedd.
- Mae'r cais yn cael ei baratoi mewn modd safle-benodol, gyda mewnbynnau data a manylion y safle yn adlewyrchu natur unigryw pob cais; a chefnogir y cais gan arfarniadau opsiynau pwrpasol sy'n adlewyrchu nodweddion penodol pob safle.
- Sefydlu costau yn gywir a sut y ceisiwyd arbedion amcangyfrifedig.
- Cymerwyd dilyniannu prosiectau rhesymol a gofal dyladwy wrth ddewis prosiectau cyfalaf i sicrhau nad oes cyfrif dwbl o arbedion carbon wrth ystyried sawl prosiect ar yr un safle.
- Bod dewis cyflenwr/cyflenwyr addas yn dilyn gweithdrefn gaffael yr ymgeisydd a'i fod yn asesu ac yn lliniaru'r risg o dwyll o ran caffael, y gadwyn gyflenwi a gweithredu prosiectau.
- Adnoddau a chapasiti ar gael i reoli'r gwaith o gyflawni ac adrodd ar gynnydd prosiectau.
- Darparu'r holl anfonebau a thystysgrifau cwblhau (lle bo hynny'n briodol) mewn perthynas â'r gwasanaethau a gyflawnir ar y prosiect(au) gan y gallai fod eu hangen ar gyfer archwilio'r prosiect(au)

## 5 Y broses ymgeisio

### 5.1 Cyflwyno eich cais

Dim ond ymgeiswyr cymwys sy'n cael cyflwyno ceisiadau a dogfennau ategol naill ai trwy gyflwyno eu ffurflen a dogfennau ategol i wales@salixfinance.co.uk. Gall partïon allanol ddarparu cymorth wrth baratoi'r ffurflen gais a dogfennau ategol ond ni chaniateir iddynt gyflwyno ar ran y corff cymwys. Pe bai'r cais yn cael ei gyflwyno gan barti allanol, mae Salix yn cadw'r hawl i wrthod y cais.

Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod ceisiadau'n gyflawn hyd eithaf eu gwybodaeth ar adeg eu cyflwyno ac maent yn cael eu hannog i adolygu telerau ac amodau'r cynllun cyn cyflwyno eu cais.

**Gwybodaeth ategol sy'n ofynnol gan ymgeiswyr**

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd, beth bynnag yw gwerth y prosiect, gyflwyno'r canlynol ochr yn ochr â'u cais:

- Cyfrifiadau arbed ynni – mewn taenlen Excel heb ei chloi, dylai'r ymgeisydd ddangos methodoleg glir y cyfrifiadau arbed ynni. Rhaid i hyn ddangos sut y cafodd yr arbedion kWh blynyddol eu cyfrifo, gan fod yn gydnaws â'r ffigurau kWh blynyddol a gafodd eu rhoi ar y ffurflen gais. Er enghraifft, ar gyfer y technolegau canlynol, gall y cyfrifiadau arbed ynni gynnwys yr elfennau canlynol:

    - Goleuadau LED: faint o ffitiadau fesul math o ffitiad, y watedd fesul math o ffitiad, oriau gweithredol, kWh blynyddol y ffitiadau presennol a'r ffitiadau arfaethedig. Sylwer na ellir defnyddio gwerth benthyciad Salix i ariannu goleuadau LED brys.
    - Paneli Solar Ffotofoltäig: adroddiadau solar sy'n cynnwys y cynhyrchiad kWh blynyddol, kWp o baneli, a % ffigur allforio. Sylwer, ni chaniateir allforio trydan er budd masnachol. Dim ond allforio'r lleiaf posibl a ganiateir, lle mae dim ond cyfran fach o'r trydan a gynhyrchir yn cael ei anfon i'r grid,. Oherwydd defnydd tymhorol, bydd ysgolion sy'n allforio mwy na hynny o drydan yn cael eu hasesu fesul achos.
    - BMS: data pob hanner awr, ynghyd â dogfen ysgrifenedig fer ond clir am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r arbedion blynyddol.
- **Tystiolaeth o'r gost** - tystiolaeth o ddyfynbris contractwr trydydd parti neu dystiolaeth o brisiau cwmni, i ategu'r dadansoddiad costau ar frig ochr dde'r achos busnes.
- **Taflenni data** – manylebau cynnyrch gan y gwneuthurwr dewisol o'r technolegau dewisol sydd wedi'u cynnwys yn y ffurflen gais.

Gwybodaeth ategol ychwanegol y mae'n ofynnol i ymgeiswyr sydd â phrosiectau gwerth dros £50,000 ei chyflwyno:

- **Dadansoddiad o'r costau** – dadansoddiad o'r holl gostau offer, gosod, gweithredu a chynnal a chadw ac unrhyw gostau prosiect eraill sy'n cyfrannu at gyfanswm costau'r prosiect a chyfanswm gwerth y

benthyciad Salix y gwneir cais amdano. Mae hyn ar wahân i'r dadansoddiad cost sydd wedi'i gynnwys yn yr achos busnes.

- **Rhaglen y prosiect** – siart Gantt neu gynllun cyfatebol arall, sy'n dangos y cerrig milltir allweddol,
dyddiadau dechrau a chwblhau, a faint o amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau pob carreg filltir.
- **Llywodraethu prosiect** – cynllun sefydliadol o'r staff mewnol/allanol allweddol sy'n cefnogi'r prosiect a'u rolau allweddol a'u profiad o gyflawni prosiectau tebyg eraill.
- **Cynllun monitro ynni a charbon** – cynllun monitro ar gyfer asesu'r arbedion ynni/carbon a wneir gan y prosiect.

### Cynllun rheoli perfformiad

Ar gyfer prosiectau o unrhyw werth sy'n gofyn am gyllid ar gyfer yr holl orsafoedd cynhyrchu trydan newydd, gan gynnwys paneli solar ar y to, rhaid cyflwyno cynllun rheoli perfformiad. Ochr yn ochr â hyn, os yw'n gwneud cais am fesurau mesur neu fonitro, dylai'r ymgeisydd lenwi'r tabl Mesur, Monitro a Rheoli Technolegau ar y ffurflen gais. Gall hyn gynnwys cyllid ar gyfer mesuryddion, is-fesuryddion, dyfeisiau cyfathrebu, a chyfryngau rheoli ynni a monitro.

Rhaid i gynllun rheoli perfformiad ar gyfer gorsaf cynhyrchu trydan ddisgrifio sut y bydd ymgeisydd yn rheoli'r orsaf gynhyrchu dros ei hoes weithredol i sicrhau ei bod yn perfformio yn ôl y disgwyl. Rhaid iddo hefyd nodi amlder monitro perfformiad. Rhaid i'r cynllun rheoli perfformiad fanylu ar sut y bydd ymgeisydd yn cyfrifo canran blynyddol yr amser y bydd yr orsaf ar gael i gynhyrchu ar gyfer Adrodd Sero Net y Sector Cyhoeddus. Gweler Atodiad A am fwy o wybodaeth.

## 5.2 Awdurdodi a llywodraethu

Rhaid i ymgeiswyr enwebu prif gyswllt, cyswllt cyllid a swyddog awdurdodi sy'n gyfrifol am oruchwylio'r prosiect yn y sefydliad a sicrhau ei fod wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Bydd gofyn i'r swyddog awdurdodi ddarparu cadarnhad ysgrifenedig o'i gymeradwyaeth wrth gyflwyno cais.

**Prif gyswllt**
Unigolyn sy'n gyfrifol am oruchwylio'r prosiect a chyflawni dyletswyddau megis cwblhau adroddiadau monitro chwarterol, rhannu tystiolaeth o daliadau, a sicrhau bod Salix yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth gyflwyno'r prosiect.

**Cyswllt cyllid**
Yr unigolyn o fewn adran gyllid ymgeisydd y sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am oruchwylio'r cyllid, yr atodlen amorteiddio benthyciadau, a sicrhau bod ad-daliadau'r benthyciad yn cael eu gwneud.

**Swyddog Awdurdodi**
Unigolyn o sefydliad cymwys sydd â'r awdurdod i gymeradwyo a llofnodi dogfennaeth swyddogol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Gall hwn fod yn brif weithredwr neu'n swyddog ariannol, neu'n uwch swyddog arall. Dylid nodi'r unigolyn hwn a chytuno arno cyn gwneud cais a dylai fod yn rhan o strwythur llywodraethu'r prosiect.

### 5.3 Proses asesu

Bydd ceisiadau'n cael gwiriadau ansawdd cychwynnol ar sail darpariaeth ar gyfer cymhwysedd a chyflawnrwydd cyn cael eu symud ymlaen i asesiad technegol. Bydd yr adolygiad technegol yn cael ei gynnal gan dîm Technegol Ynni a Charbon Salix ac asesydd technegol allanol a fydd yn darparu sicrwydd annibynnol ychwanegol bod modd cyflawni'r prosiect a bod modd cyflawni'r arbedion disgwyliedig yn rhesymol. Nod tîm a chontractwyr technegol Ynni a Charbon Salix yw cwblhau asesiadau o fewn tair wythnos. Dylai ymgeiswyr ymdrechu i ymateb i unrhyw eglurhad yn ystod y broses asesu o fewn tri diwrnod gwaith.

Bydd yr holl fenthyciadau yn cael amodau i sicrhau bod prosiectau'n bodloni diben a meini prawf cyllido. Bydd y rhain yn cael eu rhestru yn y cytundeb benthyciad, pob un â dyddiad cyflawni y mae'n ofynnol i dderbynwyr benthyciadau ei fodloni.

## 6 Ymgeiswyr llwyddiannus

Nod Salix yw hwyluso'r gwaith o gyflawni'r holl brosiectau cymeradwy yn llwyddiannus trwy gymorth ymarferol ac arweiniad yn seiliedig ar yr wybodaeth a gafwyd o brosiectau blaenorol a thrwy weithio gydag ystod eang o asiantaethau. Bydd gan bob derbynnydd benthyciad reolwr perthynas Salix pwrpasol i gynorthwyo gydag ymholiadau a chefnogi'r prosiect.

### 6.1 Gofynion adrodd

Mae'n ofynnol i dderbynwyr benthyciadau gadw cysylltiad rheolaidd â Salix trwy gydol cyfnod cyflawni'r prosiect. Bydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd wedi'u trefnu ac adroddiad monitro chwarterol gyda diweddariadau i gofrestrau risg, rhaglenni prosiect, a llywodraethiant prosiectau a rennir gyda'r rheolwr perthynas Salix penodedig.

Dylai'r adroddiad gynnwys gwaith allweddol a gynhaliwyd o fewn y cyfnod hwnnw, canolbwyntio ar gyfer y cyfnod nesaf, dyddiadau pryd y cyflawnir cerrig milltir allweddol, newidiadau disgwyliedig i raglen y prosiect, cost a/neu gwmpas, risgiau a mesurau lliniaru. Bydd y templed adrodd a'r llinell amser yn cael eu dosbarthu gan Salix ar ôl i'r cytundeb benthyciad gael ei lofnodi.

Dylai adroddiadau monitro gael eu cyflwyno gan ymgeiswyr i'w rheolwr perthynas Salix penodedig bob chwarter cyllidol sy'n cwmpasu gweithgareddau ar gyfer y chwarter cyllidol blaenorol.

Bydd dyddiadau adrodd yn cael eu rhannu gan Salix ar ôl i'r cytundeb benthyciad gael ei lofnodi.

Trwy gytundeb ar y cyd, gall corff llywodraeth fel Salix Finance neu Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ymweld â'r ymgeisydd a'r safleoedd cysylltiedig ar unrhyw adeg yn ystod y broses o gyflawni prosiectau.

### 6.2 Newidiadau i'r prosiect

Yn ystod dylunio a chyflwyno'r prosiect, os yw derbynnydd benthyciad llwyddiannus eisiau neu angen gwneud newidiadau i'r prosiect, rhaid i'r derbynnydd benthyciad hysbysu Salix cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â meini prawf y cynllun. Dilynir gweithdrefn cais am newid sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno ffurflen gais wedi'i diweddaru a dogfennau ategol i sicrhau bod meini prawf Rhaglen Gyllido Cymru yn parhau i gael eu bodloni.

## 7 Tynnu'r benthyciad i lawr a'i ad-dalu

### 7.1 Cyfradd llog benthyciad a manylion

O fis Ebrill 2024 ymlaen, cyflwynwyd cyfradd llog sefydlog ar y benthyciad yn seiliedig ar gyfradd fenthyca'r llywodraeth. Pennir y gyfradd llog gan y gyfradd a osodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn galendr y cais. Mae'r gyfradd llog sy'n gysylltiedig â'ch benthyciad yn sefydlog am hyd eich prosiect yn seiliedig ar y gyfradd y cytunwyd arni a nodir yn eich cytundeb benthyciad.

### 7.2 Tynnu'r benthyciad i lawr

Gall derbynwyr benthyciadau dynnu'r benthyciad i lawr naill ai fel un taliad, neu mewn taliadau cyfamser. Caniateir uchafswm o un taliad cyfamser fesul blwyddyn ariannol cyflawni prosiect.

Dylai gwerthoedd ac amseriad tynnu i lawr gyd-fynd â rhaglen y prosiect a gwariant a ragwelir. Bydd Salix yn cadarnhau'r dyddiadau tynnu i lawr a'r manylion gydag ymgeiswyr yn ystod galwad cyflawniad cyn llofnodi'r cytundeb benthyciad.

### 7.3 Ad-dalu'r benthyciad

Bydd llog yn dechrau cronni o ddyddiad tynnu'r benthyciad i lawr. Bydd yr amserlen ad-dalu yn cael ei nodi yn atodlen amorteiddio benthyciadau'r cytundeb benthyciad, bydd hyn yn seiliedig ar yr atodlen amorteiddio a gyflwynir gan ymgeiswyr a'i dderbyn gan Salix yn ystod y cam ymgeisio.

Bydd llog yn cronni o'r dyddiad tynnu i lawr cyntaf, ar y gwerth a dynnir i lawr. Os yw'r benthyciad yn cael ei dynnu i lawr fel taliadau cyfamser dros nifer o flynyddoedd ariannol, dim

ond ar gyfanswm gwerth y benthyciad a dynnir i lawr y bydd y llog yn berthnasol hyd nes y cyrhaeddir dyddiad tynnu i lawr arall. Bydd y taliad llog cyntaf yn ddyledus yn yr un flwyddyn ariannol â'r dyddiad tynnu i lawr cyntaf ac fe'i cyfrifir yn seiliedig ar nifer y misoedd y mae'r benthyciad wedi'i ddal. Bydd y llog yn cael ei gasglu'n flynyddol wedi hynny.

Bydd ad-daliadau ar y cyfalaf (y 'prifswm') yn dechrau ar ôl i'r prosiect gwblhau a byddant yn cael eu casglu'n flynyddol. Bydd y dyddiad cwblhau a'r ad-daliadau dilynol ar y cyfalaf yn cael eu nodi yn yr atodlen amorteiddio benthyciadau.

## 8 Cymorth a chyngor

Cyfeiriwch at wefan Salix i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiadau allweddol a sut i wneud cais. Mae gan Salix dîm o weithwyr proffesiynol ynni, carbon a thechnegol sydd â gwybodaeth arbenigol am wahanol feysydd yn y sector cyhoeddus. Ar gyfer unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni: wales@salixfinance.co.uk.

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn cynnig cyngor a chymorth technegol, masnachol a chaffael i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu eu prosiectau ynni a lleihau carbon.

**Atodiad A**

Dylai'r cynllun rheoli perfformiad gynnwys tasgau fel:

- Monitro, cofnodi a dilysu data perfformiad allweddol, gan gynnwys data cynhyrchu hanner awr a gofnodir ar fesurydd cynhyrchu sy'n cydymffurfio ag Atodlen 4 Swyddfa Safonau Diogelwch Cynnyrch
- Cynnal a gweithredu cynllun i fodloni safonau gwarant ac yswiriant
- Sicrhau bod contractwyr gweithredu, cynnal a chadw a monitro yn bodloni neu'n rhagori ar eu telerau gwasanaeth
- Cynnal a gweithredu safle i gydymffurfio â'r holl gontractau a thrwyddedau, gan gynnwys profion diogelwch
- Rheoli contractau cyflenwi a phrynu trydan
- Tystiolaeth o hawliadau yswiriant
- Cadw dyddiadur gweithredol

Yn ogystal, er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid benthyciad ar gyfer gorsaf cynhyrchu trydan newydd sbon, rhaid i ymgeiswyr osod mesurydd/ion cynhyrchu trydan hanner awr gyda'r galluoedd a ddisgrifir isod, ynghyd â chyfryngau cyfathrebu sy'n angenrheidiol i drosglwyddo data wedi'i fesur.

- Mesurydd/ion trydan sy'n mesur, cofnodi, storio a throsglwyddo data bob hanner awr i system Casglu Data/Rheoli Ynni ac sy'n cydymffurfio ac Atodlen 4 y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch..
- Rhaid i'r ymgeisydd allu cael mynediad i'r data a gasglwyd trwy Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API), neu raid i'r data fod ar gael i'w lawrlwytho o blatfform ar-lein Ddiwrnod Cynhyrchu +1.

Gall ymgeiswyr wneud cais am gostau dyfeisiau mesur a chyfathrebu bob hanner awr, a dyfeisiau eraill sy'n galluogi rheoli perfformiad gorsafoedd cynhyrchu trydan newydd, neu gyfannu data mesuryddion â systemau rheoli ynni presennol.

Os gofynnir am gyllid ar gyfer system monitro perfformiad cynhyrchu berchnogol cyflenwr solar, dylai fod â'r galluoedd canlynol o leiaf:

- Yn gallu anfon hysbysiadau gwthio trwy negeseuon testun, neu e-bost, i gyfeiriad e-bost generig y perchennog.
- Monitro cynhyrchu a diffygion sy'n effeithio ar gynhyrchu yn fyw ac o bell, trwy gymhwysiad symudol neu fwrdd gwaith
- Y Perchennog yn gallu cofnodi, storio a lawrlwytho hanes diffygion sy'n effeithio ar gynhyrchu.

Mae pob system ynni yn gofyn am Reolwr Perfformiad (rhywun yn y sefydliad â pherchnogaeth, sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am berfformiad y system).